

Pwnc: Bwyd
Mis: Gorffennaf

SGWRS Y MIS



Beth wyt ti'n hoffi fwyta?

Dw i'n hoffi bwyta salad.

Dw i'n hoffi bwyta salad a ffrwythau.

Dw i'n hoffi bwyta salad. Dw i'n dwlu bwyta ffrwythau achos mae ffrwythau yn dda i chi. Dw i'n casau bwyta losin achos maen nhw'n ddrwg i chi a ddylwn i ddim bwyta nhw.

Beth wyt ti'n fwyta i ginio?

Dw i'n bwyta brechdanau i ginio.

Dw i'n bwyta brechdanau a chreision i ginio. Dw i'n dwlu bwyta brechdanau achos maen nhw'n flasus.

Fel arfer dw i'n bwyta brechdanau ond weithiau dw i'n bwyta creision a iogwrt hefyd. Amser cinio ddoe, bwytais i ginio Dydd Sul, bwytais i foron, tatws a chig. A ddweud y gwir dw i'n casau bwyta moron achos maen nhw'n ofnadwy!

Beth wyt ti'n hoffi yfed?

Dw i'n hoffi yfed te.

Dw i'n hoffi yfed te. Weithiau dw i'n hoffi yfed sudd afal hefyd.

Dw i'n dwlu yfed te ond dw i'n casau yfed coffi. Yn fy marn i mae coffi yn ofnadwy.

Wyt ti'n hoffi coginio?

Ydw, dw i'n hoffi coginio.

Ydw, dw i'n hoffi coginio achos mae'n hwyl.

Ydw, dw i'n hoffi coginio achos yn fy marn i mae coginio yn hwyl. Penwythnos nesa, hoffwn i goginio gyda mam achos mae hi'n arbennig.

